OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3165

# Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007

## RHAN 3

dŵr ffynnon

**Potelu dŵr ffynnon a datblygu ffynhonnau dŵr ffynnon**

**10.**—(1) Ni chaiff neb beri bod unrhyw ddŵr yn cael ei botelu mewn potel wedi'i marcio neu'i labelu â'r disgrifiad "spring water" neu "dŵr ffynnon" onid yw'r dŵr hwnnw—

(a) wedi'i echdynnu o ffynnon; a

(b) yn bodloni gofynion Atodlenni 2 a 4.

(2) Ni chaiff neb beri bod unrhyw ddŵr which a gafodd ei drin ag aer a gyfoethogwyd ag osôn yn cael ei botelu mewn potel wedi'i marcio neu wedi'i labelu'n ddŵr ffynnon, onid yw'r driniaeth honno'n dechneg awdurdodedig ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn.

(3) Os gwelir yn ystod datblygu bod dŵr ffynnon yn llygredig ac y gallai potelu'r dŵr hwnnw fynd yn groes i baragraff 6, 7 neu 8 o Atodlen 4, ni chaiff neb ddatblygu'r ffynnon yr echdynnir y dŵr ohoni hyd nes y caiff achos y llygredd ei ddileu ac y gallai potelu'r dŵr gydymffurfio â'r paragraffau hynny.

**Marcio, labelu a hysbysebu dŵr ffynnon**

**11.**—(1) Ni chaiff neb beri bod unrhyw botel yn cael ei marcio neu'i labelu gyda'r disgrifiad "spring water" neu "dŵr ffynnon" onid yw'r dŵr a gynhwysir ynddi —

(a) wedi'i botelu fel a bennir yn rheoliad 10; a

(b) wedi'i fwriadu ar gyfer ei yfed yn ei gyflwr naturiol.

(2) Ni chaiff neb beri bod unrhyw botel sy'n cynnwys dŵr sydd wedi'i farcio neu wedi'i labelu â'r disgrifiad "spring water" neu "dŵr ffynnon" gael ei farcio neu'i labelu â'r canlynol—

(a) disgrifiad masnachol sy'n cynnwys enw bro, pentrefan neu le arall, onid yw'r disgrifiad masnachol hwnnw'n cyfeirio at ddŵr y mae'r ffynnon y datblygwyd ef ohoni yn y lle a ddangosir gan y disgrifiad hwnnw ac nad yw'n gamarweiniol o ran y lle y datblygir y ffynnon; neu

(b) disgrifiad masnachol sy'n wahanol i enw'r ffynnon neu'r lle y caiff y cyfryw ddŵr ei ddatblygu, onid yw lle'r datblygu neu enw'r ffynnon hefyd wedi'i farcio neu wedi'i labelu ar y botel, gan ddefnyddio llythrennau sydd o leiaf unwaith a hanner uchder a lled y llythrennau mwyaf a ddefnyddir ar gyfer y disgrifiad masnachol hwnnw.

(3) Ni chaiff neb beri bod unrhyw ddŵr yn cael ei botelu mewn potel wedi'i marcio neu'i labelu â'r disgrifiad "spring water" neu "dŵr ffynnon" oni chafodd y botel hefyd ei marcio neu'i labelu â'r canlynol—

(a) enw'r lle y datblygir y ffynnon o dan sylw; a

(b) enw'r ffynnon; a

(c) mewn unrhyw achos lle y mae'r dŵr wedi mynd drwy dechneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn, y geiriau "water subjected to an authorised ozone-enriched air oxidation technique", y mae'n rhaid i'r geiriau ymddangos yn agos at y manylion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) a (b).

(4) Os yw'n ofynnol, yn unol â pharagraff (2)(b), i botel sy'n cynnwys dŵr ffynnon gael ei marcio neu'i labelu â lle'r datblygu neu ag enw'r ffynnon—

(a) mae'r un gofyniad hefyd yn gymwys i unrhyw hysbyseb ysgrifenedig am y dŵr ffynnon hwnnw; a

(b) mewn unrhyw hysbyseb arall, rhaid rhoi o leiaf amlygrwydd cyfartal i le'r datblygu neu i enw'r ffynnon ag a roir i'r disgrifiad masnachol.

(5) Ni chaiff neb hysbysebu unrhyw ddŵr ffynnon yn groes i baragraff (4).

**Gwerthu dwr ffynnon**

**12.**—(1) Ni chaiff neb werthu unrhyw ddŵr wedi'i botelu mewn potel wedi'i marcio neu wedi'i labelu â'r disgrifiad "spring water" neu "dŵr ffynnon"—

(a) na chafodd ei botelu yn unol â rheoliad 10; neu

(b) na chafodd ei farcio neu'i labelu yn unol â rheoliad 11.

(2) Ni chaiff neb werthu dŵr o un ffynnon benodol wedi'i botelu mewn potel wedi'i marcio neu wedi'i labelu â'r disgrifiad "spring water" neu "dŵr ffynnon", o dan fwy nag un disgrifiad masnachol.